*Statws* This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3101

# Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio rhag adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993**

**2.** Mae'r dosbarthau ar leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen yn cael eu hesemptio, ar yr amodau sy'n cael eu pennu ynddi, rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sy'n gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

**Dirymu**

**3.** Dirymir Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2980 (Cy.271)).

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

3 Rhagfyr 2008